Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 8. Rhif 6.] MEHEFIN, 1908. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Ymson y Myfyriwr.
Y Cymro.
"Bywyd Iesu" gan Renan.
Gwahoddiad.
Arholiad yr Ysgol Sul.
Cyfarfod Chwarterol y Gymdeithas Gymreig.
Congl yr Awen.
Priodas. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN AWR YN BAROD, PRIS 2s. 6c.

Yr Hen a'r Newydd mewn Duwinyddiaeth,

GAN Y

Parch. D. ADAMS, B.A., Liverpool.

Ar werth gan J. D. Lewis, Swyddfa'r 'Ymofynydd', Llandyssul.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1908. [CYF. VIII. RHIF 6.

AR EDYN FFYDD.

I.

GAREDIG DAD! Tydi yw'm gobaith per
Tydi dy hun;
Tydi yw Tad y wawr, a Thad y ser,
Tydi dy hun;
Ti wnei i'm ganu yn y dduaf nos,
Tywysi fi ymlaen i'th Eden dlos.

II.

Dyneraf Dad! pwy gaf mor fwyn a thi?
Pwy fel Tydi?
Try'r trymaf niwl yn fflam i'm henaid i
Yn D' ymŷl Di;
Tawela'r storm sydd ar fy nhonog fôr,
A chwsg y gwynt, pan erchi Di, fy Iôr.

III.

Anwylaf Dad! Dy feddwl rho i mi
Mewn anial dir;
Rho nerth im' alw beunydd arnat Ti
Mewn anial dir;
O dan Dy haul, Dy awel, a Dy wlaw
Try'r anial dir yn Ganaan maes o law.

ALVA.

NODION Y MIS.

DATHLA rhywrai "ben blwyddyn" bob dydd. Ac y mae hyn yn wir, nid yn unig am bersonau, ond hefyd am gymdeithasau ac undebau cymdeithasol a chrefyddol. Darllenwn hanes wythnosol bron am rywrai yn cynal eu cyfarfodydd mawrion blynyddol, pryd y bydd holl nerth a phwerau'r gymdeithas hono, yn cael eu harddangos, a phryd y tynir allan gynlluniau'r dyfodol. Y mae iechyd ac yspryd-oliaeth i'w sugno oddiwrth gyfarfodydd felly.

Dymunem alw sylw at "ben blwyddyn" y Gymdeithas fechan y perthynwn ninau iddi fel Undodiaid Cymreig, a charem argraffu ar feddyliau pob un o honom y pwysigrwydd o wneud yr oll allwn er dathlu pen y flwyddyn yn deilwng o honom ein hunain, ac yn deilwng o'r enwad y perthynwn iddo. Nid oes neb mor dlawd a didalent fel na fedr gymeryd rhan yn y gwaith hwn, a bydd llwyddiant pen y flwyddyn yn ymddibynu ar y modd y gwna pob un gymeryd ychydig gyfrifoldeb arno ei hun yn bersonol. Dywedwn heb yr un petrusder mai y gelyn gwaethaf yn ein bywyd crefyddol fel Undodiaid Cymreig ydyw "Difaterwch." A phe gallem ladd hwn mor effeithiol heb iddo obaith am adgyfodiad gwell, yna gallem ddisgwyl am well pethau, ac am ragolygon disgleiriach nag erioed o'r blaen.

Gobeithio fod rhywun yn awr yn gofyn y cwestiwn pwrpasol, "Beth allaf fi wneud"? Wrth agoshau at derfyn blwyddyn y Gymdeithas Undodiaid Gymreig, fe wneir casgliad cyffredinol yn yr eglwysi at Drysorfa'r Gymdeithas. Penderfynwyd yn Alltyplaca fod y casgliad hwn i gael ei wneud yn mhob eglwys y Sul cyntaf yn Mehefin, neu y Sul cyfleus nesaf i hyny. Hyderwn y gwna gweinidogion, swyddogion ac aelodau pob eglwys gadw'r ffaith hon mewn cof fel y byddo cyllid y Gymdeithas yn uwch na llynedd, ac fel y byddo gwaith y Gymdeithas yn cael ei gario yn mlaen mor deilwng ag yr haedda. Hefyd gellir gyru tanysgrifiadau yn uniongyrchol i'r Trysorydd. Yn unol a rheolau'r Gymdeithas y mae pob un danysgrifia haner coron ac uchod yn aelod o'r Gymdeithas am y flwyddyn. Carem pe gallem wneuthur yr apel hon yn fwy effeithiol, mor effeithiol fel y byddai i bawb deimla gariad tuag at yr achos gymeryd arnynt y cyfrifoldeb yn ol fel y mae Duw wedi eu bendithio.

Yr ydym wedi sylwi lawer gwaith ar y ffaith nad yw ein pobl ieuainc mor hyddysg yn mhrif bynciau y ffydd Undodaidd ag y dylent fod. Ofnwn fod y rhan fwyaf o honynt heddyw heb rhyw wybodaeth bendant iawn o'r hyn sydd yn cyfansoddi y gwahaniaeth rhyngom ni a'r enwadau eraill. Y canlyniad yw, pan yr ymadawant a chymydogaeth eu hieuenctyd ymadawant a ffydd eu tadau a'u mamau am nad oes ganddynt wreiddyn y mater. Yr ydym wedi gwneud trefniadau a'r Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., Pontypridd,—a'r hwn gyda llaw sydd wedi graddio gydag anrhydeddau yn Mhrifysgolion Cymru, Rhydychen a Harvard,—i gario yn mlaen yn yr YMOFYNYDD rhyw fath o "Gongl yr Holwr," lle y gall pawb holi cwestiynau ar y rhai y maent am oleuni. Bwriadwn osod rhyw ddau dudalen at wasanaeth Mr. Davies yn fisol. Gyrer y gofyniadau naill ai i Mr. Davies neu i Swyddfa'r YMOFYNYDD.

Mewn rhifyn diweddar o'r *Haul*, prif fisolyn Eglwys Loegr yn Nghymru, ymddengys erthygl gan Ficer Llanpumpsaint ar "Hanes yr Eglwys." Wrth drin cyfnod y Ddeunawfed Ganrif, dywed y Ficer parchus hwn fel a ganlyn :—"Yr oedd yn oes inffidelaidd ac anfoesol iawn. Yn 1707 ffurfiodd y Sociniaid eu hunain yn gymdeithas grefyddol o dan yr enw Undodiaid. Gwadent ddwyfoldeb (?) yr Arglwydd Iesu, ac Athrawiaeth y Drindod, a gwnelid hwy i fyny yn benaf o Bresbyteriaid Saesneg. Ac y mae yn ffaith fod rhai o'r capeli Undodaidd a Socinaidd yn Sir Aberteifi wedi bod unwaith yn gapeli Ymneillduol. Unwaith pregethid ynddynt athrawiaeth y cadw trwy Iawn Crist. Unwaith clywid ynddynt "Pen Calfaria, nac aed hwnw byth o'n cof." Ond erbyn heddyw, nid oes ond pregethu moesoldeb oerllyd—dim son am iawn Crist a gwaith yr Ysbryd Glan."

Mewn nodyn mor fyr byddai yn anmhosibl i neb wneud cymaint o gamsyniadau. Bydded hyspys i Prebendari Lloyd nad yw'r Undodiaid yn gwadu, ond yn pregethu dwyfoldeb yr Arglwydd Iesu, ac efallai y bydd yn syn ganddo glywed hefyd fod y capeli Undodaidd yn Sir Aberteifi o hyd yn parhau i fod yn gapeli Ymneillduol, ac nis gwyddom fod arnynt yr un awydd i fod yn ddim arall. Pe buasai Prebendari Lloyd yn gwybod rhywbeth am syniadau Undodaidd, buasai yn gwybod fod y pwlpud Undodaidd yn parhau i gadw aberth Crist o flaen y bobl. "Moesoldeb oerllyd" yn wir. Beth ddywed ef am "Bregeth Crist ar y Mynydd," am ddameg y "Mab Afradlon" a'r "Samaritan Trugarog." "Moesoldeb oerllyd," yn ddiau, os ydyw am fod yn gyson ag ef ei hunan. Efallai fod Prebendari Lloyd yn hyddysg yn y *Common Prayer*, ond cyn anturio y tu allan iddo mwy

cynghorem ef i ymdrin a ffeithiau, yn hytrach na chanlyn rhyw hud-lewyrn nad ymddengys ei fod yn gwybod dim am dano.

Wn i ddim beth feddylia Bedyddwyr Cymru am y ffaith ; ond y mae Cymdeithas Lyfrau Bedyddwyr America wedi cyhoeddi llyfr o eiddo un George Hooper Ferris, M.A., (B.), sydd yn tori tir newydd i'r enwad wrth ymdrin a phwnc Canon y Testament Newydd. Ymddengys mai amcan y llyfr yw ceisio cael allan pa bryd y cododd y syniad fod yr Ysgrythyrau i'w cyfyngu i nifer penodedig o lyfrau. Ysgrifenwyd lluaws o lyfrau yn yr hen amser gydag enw apostolion wrthynt. Pa bryd y penderfynwyd fod nifer yr efengylau i fod yn bedair? Sut y daethpwyd i'r penderfyniad? A oedd y sawl wnaeth hyny yn ysprydoledig? A dderbyniwyd dadguddiad uniongyrchol ac awdurdodol yn mherthynas i'r pedair? Sut y gadawyd Bugail Hermas ac Epistol Barnabas allan, dau lyfr fuont yn boblogaidd iawn un amser? Tybia'r awdwr hwn ei fod yn clywed llais "Rhufain" y tu cefn i'r oll. Cydnebydd Mr. Ferris werthfawredd y Testament, ond ymddengys ei fod yn credu fod yna lyfrau eraill a ddylent fod i fewn, a chyfrifa fod ffynon ysprydoliaeth i ryw raddau wedi ei chau trwy ymddygiad cul yr offeiriadaeth. Ychwanega ei farn y dylai "Oes yr apostolion ddyfod yn rhan o gynllun mawr, parhaol, a didor Rhagluniaeth y nefoedd." Ni fedr ddygymod a'r syniad nad oes "gweledigaeth eglur heddyw." Desgrifia'r dychymyg o Olyniaeth Apostolaidd fel rhyw *gas pipe system* sydd yn gwrthod golau i bawb nad ydynt mewn cysylltiad a'r *main*; ond ystyria fod hyny yn well na chau Cristnogaeth mewn *reservoir* or ganrif gyntaf, ac yna distrywio'r *main*. Mae'n lachio ysbryd Rhufain a Geneva a gwialen o fân reffynau. Ond beth ddywed yr enwad?

YMSON Y MYFYRIWR.

Y mae ochr ddisglaer ddymunol i bob gwrthddrych. I'r rheol hon nid yw y diafol (neu y cythraul, neu Satan, neu beth bynag ei gelwir) yn eithriad. Arferir ei baentio mewn lliwiau mor ddu, ei ddal i fyny o flaen dynion fel bwgan mor hyll, fel na ellir gweled yr un elfen ddymunol yn ei gymeriad nac yn ei hanes. Meddylir am dano fel "llew rhuadwy, yn rhodio oddiamgylch, gan geisio y neb a allo ei lyncu." Yn ol y farn gyffredin am dano, nid oes ond dinystr yn dilyn ei gamrau. Nid yw'r farn gondemniol hon, fel

yr ymddengys i mi, yn gwneud cyfiawnder â'r diafol. Nid drwg i gyd yw ei fodolaeth. Ni ddywedaf ddim am ei amcan. Gall hwn fod yn ddrwg di-dda. Dyna, yn debygol, yw'r gwir. Ond wrth ddweyd nad drwg i gyd yw'r diafol golygaf fod canlyniadau neu ffrwythau neu effeithiau ei weithrediadau yn fynych iawn yn troi allan yn ardderchog, neu, ein bod yn rhanol ddyledus am rai o gymeriadau goreu ein byd i weithrediadau y diafol. Nid ymgymeraf a phenderfynu beth yw'r diafol, na rhoi barn am ei darddiad a'i amcan. I'r rhan fwyaf o genhedloedd y ddaear—hyd yn nod heddyw—person ydyw. Dyna ydyw yn llyfr Job. Yno (lle y gelwir ef yn Satan) dywedir ei fod, ar ei gais ef ei hun, wedi ei anfon gan y Jehofah i brofi'r hen batriarch. Yn hanes temtiad Iesu Grist gosodir ef allan fel person gwirioneddol. Nid fel dameg y gesyd yr hanesydd yr ymdrafodaeth hon ger ein bron, ond fel hanes—hanes digwyddiadau a gymerasant le (yn ei farn ef) fel y cofnodir hwynt. Yna, i Martin Luther, yr oedd y diafol yn berson mor sylweddol ag ef ei hun. Nid oedd ynddo yr un amheuaeth parthed ei fodolaeth bersonol. Trwy gydol tymor Luther fel diwygiwr yr oedd y diafol yn ei ddilyn, yn chwerthin am ei ben, yn priodoli iddo amcanion gau, yn ceisio ei ddychrynu o'r llwybr newydd, mewn gair, gwnelai bob peth a fedrai i'w ddigaloni a pheri iddo i roddi ei arfau i lawr. Un tro dywedir fod y diafol wedi myned ato i'w fyfyrgell yn fwy hyf nag arferol, a'i fod wedi cyffroi'r hen ddiwygiwr gymaint, fel y tafl- odd y botel inc, gyda'r amcan, yn ddiau, o osod terfyn ar ei hoedl. Dywedir fod ôl yr inc i'w weled ar fur yr ystafell hyd heddyw. Ni lwyddodd Luther yn ei amcan, fodd bynag, oherwydd mae'r diafol wedi rhoi cyfrif da am dano ei hun, wedi rhoi digon o brofion o barhad ei fodolaeth, lawer gwaith wedi hyny. Gellid enwi enghreifft- iau cyffelyb yn hanes dynion mawr eraill. Yn wir, yn ystod y diwygiad diweddar, yr oedd i'r diafol le amlwg iawn yn nghynyrch- iad y golygfeydd rhyfeddol y buwyd yn dyst o honynt trwy'r oll o Gymru. Nid wyf am i'r darllenydd ddeall fy mod yn credu fod y diafol yn berson yn yr ystyr y credid hyny gynt. Credaf yn ei fodolaeth, er hyny, mor gryf a neb; a chredaf mai mewn personau neu fodau dynol y mae yn bodoli. Nid oes iddo fodolaeth ar wahan i fodau dynol. I mi nid yw'r gair diafol ond enw ar y duedd mewn dyn i ddewis y gwaelaf yn hytrach na'r goreu. Cyfeiriaf at y digwyddiadau uchod a gofnodir mewn hanes fel enghreifftiau o'r dyb gyffredin am y diafol—person mor sylweddol ag unrhyw un o'n darllenwyr. Ond nid yw personoliaeth y diafol o bwys mawr. Yr hyn sydd bwysig yw'r egwyddor y mae'r gair diafol yn rhoi datgan- iad iddi neu yn sefyll am dani. Y mae i'r diafol, yn yr ystyr hwn, ochr ddisglaer—neu, i'w hanes yn hytrach. Meddylir am y diafol fel person diwyd iawn. Nid yw byth yn segur. Nid yw byth yn colli gafael ar gyfleusdra da. Y mae a'i lygaid yn wastad yn agored, er gweled beth bynag all fod yn ffafriol i lwyddiant ei deyrnas. Chwilia allan fanau gweinion cymeriad dyn; ac unwaith y ca afael ynddynt, ni rydd eu perchenog i fyny hyd nes y llwydda

i'w ddarostwng dan ei lywodraeth; neu hyd y gorfodir y diafol i encilio o'r frwydr. Awgryma'r frawddeg olaf beth olygaf pan y dywedaf nad yw'r diafol mor ddu ag y paentir ef. Mae rhai o gymeriadau ardderchocaf hanes yr hil ddynol wedi eu cynyrchu trwy eu bod wedi gorfod ymgodymu a'r diafol, ac wedi dod allan o'r ornest yn fuddugoliaethwyr. Adroddwyd gan un o'i "fechgyn" (fel y galwai efe y morwyr ddelent i wrando arno yn ei Bethel yn Boston) wrth y diweddar Dad Taylor am y ffwdan y bu ynddo un tro wrth ymladd a'r diafol. "Da iawn, Jack," meddai Taylor mewn atebiad, "Mae hyny'n dangos dy fod yn werth dy demtio, onite byddai yn sicr o'th adael yn llonydd; nid yw efe (y diafol) yn hidio am us." Mae'r dywediad hwn yn taro'r hoelen (fel y dywedir) ar ei chlop. Mae gan y diafol (gan nad yn mha ystyr y defnyddir y gair, ai fel bod personol, ynte yr elfen neu'r duedd mewn dyn i ddewis y gwaelaf) fwy i wneud a chynyrchiad cymeriadau ardderchog nag a feddylir. Byddai Job wedi marw mewn dinodedd, oni bai am y sylw arbenig dalwyd iddo gan Satan; a thrwy hyn amddifedid y byd dynol o'r enghraifft ardderchog o amynedd wneir yn amlwg i ni yn nghymeriad Job. Ni chredaf fod un sarhad mewn dweyd fod Iesu yn ddyledus am lawer o'r nerth a berthynai i'w gymeriad uchel i'r frwydr ar ddechreu ei yrfa gyhoeddus —brwydr rhwng y diafol a'r angel. Ffrwyth brwydrau rhwng y diafol a'r angel yw y rhan fwyaf o gymeriadau ardderchog—bron yn ddieithriad. Y mae llawer o gymeriadau o'r rhai y mae y gair diniwed yn fwy addas desgrifiad na'r un gair arall. Ant trwy'r byd dan dywyniad haul parhaus; ni ddaw ystormydd i'w cyfarfod ond anaml; a phan y deuant, ni achosant un cyfnewidiad arbenig yn rhediad llyfn, dirwystr eu gyrfa ddaearol. Y mae cymeriadau o'r fath hyn yn werthfawr; y maent yn halen cymdeithas. Ond y mae y cymeriadau ydynt wedi gwneud eu hol ar y byd dynol bron yn ddieithriad yn dwyn olion yr ornest y bu raid iddynt gymeryd rhan ynddi ar ryw adeg yn eu hanes. Mae'r ornest yn fwy poeth yn rhai achosion nag yn eraill. Ond rhaid myned trwyddi. A rhaid myned i'r ornest pan y mae'r diafol yn rhoi cyfleusdra i ni, ac nid ei gohirio hyd ryw adeg gyfleus i ni ein hunain—rhywle tua therfyn bywyd, pan yn dechreu clywed swn yr Iorddonen. Oherwydd, yn ngeiriau'r Tad Taylor eto, "ni all neb wasanaethu'r diafol trwy'r oll o'i fywyd, ac yna ei siomi gyda'i anadl olaf. Ni ellir llosgi'r ganwyll hyd y gwaelod, ac yna roddi'r gweddill i Dduw."

MYFYRIWR.

Y CYMRO—OL-OLWG, AR-OLWG, RHAG-OLWG.

Yn debyg i'w frawd Celtig mewn gwledydd eraill, un o nodweddion amlycaf y Cymro yw ymroddiad defosiynol i grefydd. Hyd amser Harri'r Wythfed ac yn ddiweddarach yr oedd yn Babydd selog fel ei frawd o Lydaw a'r Iwerddon: heddyw y mae'n Brotestant o'r Protestaniaid fel ei frawd Presbyteraidd yn Scotland, er yn anwybyddu yn rhy fynych, fel mae gwaethaf y modd, egwyddor fawr sylfaenol Protestaniaeth—rhyddid meddwl, barn a llafar. Y peth olaf hwn, feallai, yn fwy na dim arall, a gyfrif am y ffaith hynod arall yn ei gymeriad,—er ei fod yn geidwadol eithafol yn ei grefydd, ei fod ar yr un pryd yn *radical* i'r pen draw yn ei wleidyddiaeth.

Yn y gorphenol pell, wedi ei esgeuluso gan yr offeiriad, a'i adael heb help yr ysgolfeistr, nid rhyfedd os aeth yn anwybodus ac yn ddiofal hollol o bob peth perthynol i grefydd; iddo'n ddiweddarach fyned yn rhwydd yn ddysgybl i'r anghydffurfiwr mwy selog, nad o ba ddosbarth bynag y digwyddai fod—Presbyteriad, Annibynwr, neu Fedyddiwr. Ac yn ddiweddarach eto, ar adeg y cyffro mawr yn Lloegr yn y 18fed ganrif, o dan ddylanwad Whitfield a Wesley, nid rhyfedd iddo gael ei gynhyrfu i'w waelodion gan bregethau tanllyd Daniel Rowland a Howell Harris, sylfaenwyr enwad parchus y Methodistiaid—yr unig enwad brodorol yn Nghymru y dyddiau hyn. Yn raddol ymffurfiodd yr oll o'r enwadau hyn yn gyrff ystrydebig amrywiol ac uniongred o leiaf, uniongred yn eu tyb eu hunain—ac y maent wedi parhau hyd heddyw yn fwy neu lai annheimladwy o ddarganfyddiadau Gwyddor ac addysgiadau beirniadaeth Feiblaidd ddiweddar.

Nid oes amheuaeth nad yw ei iaith wedi bod yn rhwystr* i flaenfynediad y Cymro mewn llawer cyfeiriad. Clywir yr ymffrost weithiau iddo fod yn rhagfur mwy effeithiol yn erbyn diluw heresiau Lloegr a'r Almaen nag a brofodd Clawdd Offa erioed yn erbyn ymgyrchfaoedd y Sacsoniaid. Ar yr un pryd y mae'n amheus pa mor bell y darfu iddo erioed sylweddoli ei golled anrheithol mewn cyfeiriadau eraill oherwydd ei anwybodaeth o'r Saesneg. Y mae'r awdurdodau crefyddol yn Nghymru wedi gweithio yn rhy hir ar y rheol Babaidd—"Anwybodaeth yw mam duwioldeb," ac yn ei anwybodaeth hwn y mae'r Cymro yn rhy fynych wedi bod yn rhy barod i ymfoddloni ar ei gyflwr. Cyflwr trist yw—carcharor yn foddlon ar ei gadwyni, caethwas ar ei gaethiwed. Dyna deimlad yr Aifftwr hyd yn ddiweddar,—yn gaethwas i'r syniad tyngedfenol a awgrymir yn y ddiareb—"Triugain mlynedd a deugain niwrnod, a man a'r man fydd hi i'r brenin a'r cardotyn"; ymfoddlona ar ei gyflwr yn lle ymysgwyd a gwneud ymdrech i'w wella. Sefyllfa anheilwng o greadur rhesymol. Nid dyna'r cyflwr meddwl sydd wedi helpu'r byd i'w sefyllfa bresenol.

Nid doeth cadw'r plentyn yn rhy hir wrth linyn ffedog ei fam. Pob parch i'r fam wrth gwrs, a diolch yn fawr am ei gwasanaeth gwerthfawr; a diolch hefyd am wasanaeth y Parch. Thomas Charles (1755-1814), o'r Bala, a dynion o'i fath, y rhai a wnaethant waith ardderchog yn eu dydd yn ol eu manteision a'u cyfleusderau, ond nid teg cylymu ein ieuenctyd o'r ugeinfed ganrif wrth

---

*Rhwystrau eraill ydynt (1) Yspryd trahaus ei oresgynydd Seisnig; (2) Yr ymgais i wneud Sais o hono yn groes i'w ewyllys, ac yn anghyson iawn; (3) Y ffaith o'i gau allan oddiwrth gyfleusderau addysg.

lyfrynau y 18fed. Yr oedd Rhodd Mam, a'r Hyfforddwr, a'r Geiriadur* (Charles) o wasanaeth y dydd y cyhoeddwyd hwy; ond parheir o hyd i'w defnyddio ac i ddysgu plant yr Ysgol Sul allan o honynt, i'r byd gael ei greu tua chwe mil† o flynyddau'n ol; fod y ddynoliaeth yn dragwyddol golledig oherwydd i'w hendad Adda fwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig; fod y Diluw wedi gorchuddio'r holl ddaear, &c. Anwybyddir addysg daeareg a darganfyddiadau Darwin fel mympwyon ffol a disail.

Honir fod y Beibl yn anffaeledig‡ ac yn wir o'i ddechreu i'w ddiwedd; ac oll o werth cyfartal; fel os bydd i rywun amheu un llythyren neu iota o hono, fe'i cyfrifir yn heretic a'i gyflwr tragwyddol mewn perygl. Nid oes pechod mwy yn marn rhai o'r eglwysi na bod dyn yn barnu drosto ei hun, oni fydd iddo farnu yn ol y gyffes a'r gredo. Y mae iddo ryddid, ond rhyddid yw i fyned i un cyfeiriad, cyffelyb i ryddid yr afon—i redeg i'r mor.

Ond y mae Clawdd Offa 'r iaith Gymraeg yn amlwg yn dangos arwyddion ymollwng. Cydweithia llawer peth i ddwyn hyny oddiamgylch. Y dylanwad penaf, feallai, oedd Deddf Addysg Elfenol 1870; wedi hyny sefydliad yr Ysgolion Sir, a'r tair Coleg, gyda'r Brifysgol, y rhai, gyda'u gilydd a ffurfiant gadwen gyflawn o'r fath a alluoga plant Cymru, os yn meddu'r gallu a'r penderfyniad a'r dyfalbarhad angenrheidiol, i esgyn o ris isaf yr ysgol i'r un uwchaf. Gyda'r cyfleusdra newydd hwn a gawsant, dangosodd gwerin Cymru eu hawydd angerddol am wybodaeth. Manteisiwyd ar fesur addysg ar draws yr holl wlad, a sefydlwyd ysgolion yn unol a gofynion y gyfraith. Y mae'r hen ragfuriau felly yn cyflym ddiflanu, a'n pobl yn rhoi clust i gynghor Ceiriog—"Dysgwch y ddwy." Cawn lawer, yn anffodus, yn ymseisnigeiddio o ran iaith a chydymdeimlad; a rhai yn ym-ddic-sion-ddafyddio, gan anghofio eu Cymraeg, a "brolian rhywfath o Sysnag"—chwedl Ic, Penrhiwangen—cyn eu bod wedi meistroli un iaith yn iawn; ond am yr amlafrif, ni a obeithiwn eu bod, trwy ychwanegu iaith newydd at iaith eu rhieni, wedi dyfod yn ddwyieithog.

Wedi meistroli'r Saesneg mae llifddorau llenyddiaeth newydd a chyfoethog wedi eu taflu yn agored i'r Cymro, ac y mae wedi dechreu darllen. O fewn cyrhaedd iddo y mae llyfrau o bob math, ac ar bob testun y gall ddychmygu am dano, ac ond odid, rai hwnt i'w ddychymyg—llawer yn dda odiaeth, peth yn ddiffrwyth, a gormod yn ganolig. Ni fedr ddewis yn ddoeth bob amser, ac nid oes ganddo neb i'w gyfarwyddo. Tanir ei uchelgais. Yma ac acw, yn awr ac yn y man, nid rhyfedd os syrth i lwybrau trafferth. Achosa anesmwythdra yn yr eglwys. Daw i wrthdarawiad ag awdurdodau y set fawr. Deallir fod rhywbeth allan o le, a theimlir yn drist fod rhai o'n pobl ieuainc goreu yn myned ar gyfeiliorn—y rhai mwyaf darllengar hefyd a gwybodus o honynt. Nid yw'r dyn ieuanc yn ddim os nad yw yn anturus. Y mae wedi profi o ffrwyth pren gwybodaeth, ac wedi cael fod ei flas yn hyfryd. Beth sydd i'w wneuthur ag e? Dyna'r cwestiwn pwysig, a'r duedd rhy gyffredin yw ei fygwth. Nid etyb hyny un diben da. Gwell bod yn gynil ac ymddwyn yn rhesymol tuag ato. Sylwer mor ddoeth oedd Paul, "Dywedyd yr wyf fel wrth rai synwyrol, bernwch beth yr wyf fi yn ei ddywedyd" (1 Cor. 10 : 15). Nid hawdd fydd myned at galon gwr ieuanc o'r dosparth hwn oddigerth trwy argyhoeddi ei reswm a'i ddeall. Ie, ym-

* Cyhoeddwyd y 78fed argraffiad o'r Hyfforddwr tua 1890.

† Dysg Daeareg fod dynion yn byw yn Nghymru 60 mil o flynyddau'n ol, ac ar lanau'r Tafwys 120 mil o flynyddau'n ol.

‡ Nid yw'r Beibl ei hunan yn honi dim o'r fath beth.

resymer ag ef, ac argyhoedder ef os gellir, wrth gwrs. Boddloner ei reswm a'i synwyr cyffredin yn gyntaf peth, a cheisier dangos mai *gwirionedd* ac nid cyffes a chredo yw'r peth pwysig yn ein golwg. Hen ddiareb Ladin a ddywed—*Magna est veritas et praevalebit*,—hyny yw, mawr yw gwirionedd ac efe a lwydda !

Gwendid cyffredin y dyn ieuanc yw tynu casgliadau'n rhy frysiog. Diffyg profiad sydd y tu cefn i hyny. Gyda mwy o brofiad daw mwy o ddoethineb. Dysgwyd ef yn yr Ysgol Sul fod y Beibl yn anffaeledig. Camsynied oedd hyny wrth gwrs ; ond camsynied llawn cymaint yn y dyn ieuanc fydd taflu'r Beibl i ffwrdd oblegid tybio fod diffygion ynddo. Camsynied cyffelyb wneir pan dybir fod bodolaeth Duw yn dibynu yn unrhyw fodd ar y pwnc pwy oedd awdwr llyfr Genesis ; neu nad oes gwahaniaeth rhwng da a drwg, rhinwedd a phechod am nad oedd rhinwedd a moes Abraham neu Dafydd y peth y dylent fod yn ein tyb ni. Dibyna gwerth y Beibl, fel gwerth gweithiau Shakespeare neu Milton neu ryw lyfr arall, ar werth y gwirionedd a gynwysant. Felly dywedwn wrth ein pobl ieuainc, Yn ara' deg os gwelwch yn dda Gwell pwyll nag aur. Chwiliwch yr Ysgrythyrau. Cewch ynddynt wirioneddau o'r gwerth mwyaf a theilwng o'ch ystyriaeth ddifrifolaf. Ceir gormod brys yn dwyn rhwystrau anorfod. O gam i gam yr esgynir yr Wyddfa. O ris i ris yw rheol yr oesau. Beth arall yw ystyr geiriau Fontelle—"Creodd Duw ddyn ar ei lun a'i ddelw ei hun, ac y mae dyn byth oddiar hyny wedi bod yn talu'r *compliment* yn ol trwy wneuthur Duw ar ei lun ei hunan." Y mae Duw'r un ac yn anghyfnewidiol, ond y mae meddwl dyn am dano yn ymloywi ac yn gwella gyda threigliad yr oesau. Oblegid hyny y cawn fod heresi un oes yn dyfod yn uniongredded oes ddilynol.

Gwyddai Newton lawer, ond dywedir y gall dynion ieuanc heddyw, erbyn eu bod yn 25ain oed, feistroli'r oll a wyddai Newton, ac oddiar ei ysgwyddau ef edrych i feusydd newyddion. Erys meusydd newyddion eang a chyfoethog i bob oes i'w meddianu ; edryched pawb na thaflont rwystrau diangen ar ffordd cerbyd y blaenfynediant. Cofied eiriau'r Arglwydd wrth Moses,—Dywed wrth feibion Israel am gerdded *rhagddynt*. Dyna'r *motto* iawn—Rhagoch ! Rhagddo mae'r byd yn myned. Awn ninau rhagom oreu gallom. Rhagom bawb. Rhagom hen, rhagom ieuainc. Rhagoch, chwi wyr y set fawr, a'r seti eraill i gyd.

"Rhagom, filwyr Iesu,
Yn un dyrfa lan," &c.

Calonogwn ein pobl ieuainc gonest a chydwybodol. Yn naturiol, iddynt hwy y perthyn y dyfodol. Bydded ein gofal ninau'n unig am gymaint o falasarn ag a geidw'r llong ar y wyneb—rhag suddo. Gwnawn bawb ein goreu, yn hen ac yn ieuanc, yn dlawd ac yn gyfoethog, ac fe ofala'r Hwn sydd yn eistedd ar lifeiriant amser fod yr oll yn cydweithio i'r amcanion goreu a lles penaf pawb yn y pen draw. Rhaid ini wrth amynedd.

Yn araf daw Trugaredd a'i maith gynlluniau i ben,
Yn araf tyr goleuni drwy lawer niwlog len.
Rhy fawr yw Tragwyddoldeb i'n gwan fesurau ni,
Ond ar bob cwmwl tywyll daw llewyrch oddi fry !

Cyn yr ymddengys y llinellau hyn drwy'r wasg bydd y Van Undodaidd wedi cychwyn ar ei chenadaeth. Cenadwri o hedd a chariad a chymydogaeth dda sy ganddi mewn golwg. Sut dderbyniad gaiff hi gan y Cymro tybed ! Ni fwriedir aflonyddu ar neb o'r eglwysi ; ond i'r gwrthwyneb, amcenir helpu'r rhai sydd wedi colli eu hen angorfeydd, wedi syrthio i gors amheuaeth, ac wedi colli golwg ar Dduw a dyledswydd a'r bywyd tragwyddol ; a cheisio adferu iddynt obaith y Bywyd gwell. Gobeithiwn

y ca'r sawl fo'n gweini ar y Van gydymdeimlad a help ymarferol o leiaf pob Undodwr o Gymro a phob Rhyddymofynwr lle bynag y daw.

A'n dymuniad a'n gweddi yw ar fod y mudiad yn ei holl amcanion ac yn ei holl waith yn troi allan i fod er lles dyn a gogoniant Duw Dad.

T.C.U.

"BYWYD IESU" GAN RENAN.

PENNOD V.—Ioan Fedyddiwr.

Taith Iesu at Ioan. Ei ymwneliad a Ioan a'i arosiad yn niffaethwch Judea. Y mae yn derbyn Bedydd Ioan.

Ymddangosodd gwr tra hynod tua'r amser hwn. Y mae ei swyddogaeth, oherwydd diffyg tystiolaethau, yn anhawdd ei ddeall, ond yn ddiamheu bu ef yn dal perthynas â Iesu am beth amser. Tuedd y berthynas hon oedd tywys y proffwyd ieuanc o Nazareth rhyw gymaint oddiar ei ffordd ei hun; ond awgrymodd iddo luaws o ychwanegiadau pwysig at ei athrawiaethau crefyddol; fodd bynag, rhodd i'w ddisgyblion awdurdod gref dros gymeradwyo eu meistr ieuanc i ddosbarth neillduol o Iddewon.

Tua'r flwyddyn 28 o'n cyfnod ni (y 15fed flwyddyn o deyrnasiad Tiberius), ymdaenodd y son drwy holl Balestina am un Johanan neu Ioan—meudwy ieuanc llawn o dân a brwdfrydedd. Yr oedd Ioan yn hanu o'r urdd offeiriadol, ac wedi ei eni, fe ymddengys, yn Juttah, ger Hebron, neu efallai yn Hebron ei hun. Safai Hebron, dinas batriarchaidd uwchlaw dim, yn ymyl anialwch Judea ac o fewn taith ychydig oriau i ddiffaethwch mawr Arabia. Yr oedd y lle yr adeg hwn yr hyn ydyw y dydd heddyw, yn un o amddiffynfeydd cadarn undduwiaeth, yn ei ffurf fwyaf llym. O'i febyd yr oedd Ioan yn Nazir, hyny yw, wedi ymdynghedu i ymatal mewn ystyr faterol mewn amryw ffyrdd. Yr oedd y diffaethwch, yr hwn a'i cylchynai drwy ei blentyndod, wedi ei swyno yn foreu. Yno arweiniai fywyd fel eiddo'r *Iogi* Indiaidd; dilladai ei hun â gwisg o flew camel, ac ni chymerai ymborth ond locustiaid a mêl gwyllt. Yr oedd rhyw nifer o ddisgyblion wedi ymgasglu o'i amgylch, gan gyfranogi o'i ddull o fyw a myfyrio ar ei athrawiaeth lem a difrif. Gallem dybied ein hunain wedi ein cludo i lanau'r Ganges, onibai fod yna deithi neillduol yn cael eu datguddio yn y gwr unig hwn a'i gwnaent yr olaf ddisgynydd o broffwydi mawrion Israel.

Oddiar y pryd y cymerodd anobaith afael yn Israel drwy fyfyrio ar ei thynged, yr oedd meddwl y genedl wedi crwydro mewn serch yn ol at ei hen broffwydi. O'r holl broffwydi hyn, cofiwn am y rhai ddelent, megys breuddwydion anesmwyth nos, i ddihuno a chyffroi y bobl, y mwyaf oedd Elias. Bu fyw y cawr-broffwyd hwn, yn ei unigedd garw yn mynydd Carmel, gan gyfranogi o fywyd y bwystfilod gwylltion, a thrigo yn ogofäu y creigiau, o'r hwn le y disgynai megys taranfollt i wneud a dadwneud breninoedd. Trwy drawsnewidiau dilynol yr oedd y gwr hwn wedi myned yn fath o fôd goruwchnaturiol, weithiau'n weledig ac weithiau'n anweledig, ac nid oedd wedi profi marwolaeth. Credid yn

gyffredinol y delai Elias yn ol i adsefydlu Israel. Yr oedd y bywyd garw a dreuliodd, y cofion ofnadwy a adawodd ar ei ol—cofion sydd a'u hargraff yn aros hyd heddyw ar y Dwyrain, fel rhyw gysgod tywyll a grea ddychryn a marwolaeth,—yr oedd yr holl draddodiadau hyn—hanesion llawn dial ac ofn—wedi cyffwrdd â meddyliau'r bobl, ac wedi gosod nodau geni, fel pe b'ai, ar gynyrchion crebwyll y genedl. Pwy bynag a feddai ddyhead am weithredu'n nerthol ar y bobl, yr oedd yn rhaid iddo efelychu Elias; ac am mai bywyd unig a arweiniai, yr oeddys wedi arfer portreadu "gwr Duw" fel meudwy. Arferid credu fod gan yr holl "wŷr sanctaidd" eu dyddiau o benyd, o ymneillduo, ac o ympryd. Yr oedd myned i'r diffaethwch, felly, wedi dyfod yn amod a rhagfynegiad swyddogaeth sanctaidd. Y mae'n ddiamheu fod y meddwl hwn o efelychiad wedi gweithredu yn gryf ar Ioan. Yr oedd y bywyd neillduedig, er mor groes i yspryd yr hen bobl Iddewig, wedi myned ar daen drwy holl Judea Yr oedd yr Esseniaid, a'r Therapeutiaid, neu'r Gwyrthwneuthurwyr, wedi ymgrynhoi ger man genedigol Ioan, ar lanau dwyreiniol y Môr Marw. Meddylid y dylai penaethiaid pob sect fod yn feudwyaidd, gyda'u rheolau a'u sefydliadau eu hunain, fel sylfaenwyr urddau crefyddol. Yr oedd athrawon gwŷr ieuainc hefyd, weithiau, yn fath o wŷr neillduedig yn dra thebyg i *Gurus* y Brahminiaid. Yr arferiad sylfaenol a roddai i sect Ioan ei chymeriad, a'r hon a rodd iddo ei enw, oedd bedydd neu drochiad yr holl gorff. Yr oedd y seremoni o olchiad eisoes yn adnabyddus i'r Iddewon, fel i holl grefyddau'r dwyrain. Yr oedd yr Esseniaid wedi ei dadblygu mewn cyfeiriad arbenig. Yr oedd bedydd wedi dyfod yn seremoni gyffredin i gyflwyno proselytiaid i fynwes y grefydd Iddewig—yn rhyw fath o ddefod ragarweiniol. Ond nid oeddys erioed, cyn amser Ioan Fedyddiwr, wedi gosod cymaint pwys, na'r un ffurf, ar drochiad. Yr oedd Ioan wedi gwneud y rhan ddiffaethwch o Judea sydd gerllaw y Môr Marw yn faes llafur iddo'i hun.

Ar yr adegau pan y gweinyddai fedydd, elai tua glanau'r Iorddonen, naill ai yn Bethania neu Bethabara, ar y lan ddwyreiniol, gyferbyn a Jericho mae'n debygol, neu mewn lle o'r enw Ainon neu "Y Ffynonau," ger Salim, lle yr oedd llawer o ddwfr. Yno ymgynullai tyrfaoedd mawrion, yn enwedig o lwyth Judah, i dderbyn bedydd ganddo. Mewn ychydig fisoedd, felly, aeth yn un o ddynion mwyaf dylanwadol Judea, yn wr nas gallai neb ei anwybyddu. Maentumiai y bobl mai proffwyd oedd, a chredai llawer mai Elias wedi adgyfodi ydoedd. Yr oedd y gred mewn adgyfodiadau fel hyn yn dra chyffredin; meddylid y gwnai Duw ddeffroi o'u beddau rai o'r hen broffwydi i fod yn arweinwyr i Israel i'w tywys yn mlaen ar y ffordd a ragfwriadwyd iddi. Eraill a fynent mai y Messiah oedd Ioan, er na honid hyny ganddo ef. Diystyrid ef gan yr offeiriaid a'r ysgrifenyddion, y rhai oeddynt bob amser yn gwrthwynebu adfywiad proffwydiaeth, ac yn elyniaethus i bob brwdfrydedd. Ond gwthid poblogrwydd y bedyddiwr arnynt, ac ni feiddient yngan gair yn ei erbyn. Yr oedd yn fuddugoliaeth i deimlad y tyrfaoedd ar yr uchelwyr offeiriadol. Pan ofynid gan yr offeiriaid i ddadgan eu barn yn eglur ar y mater hwn, gyrid hwy i benbleth mawr.

Nid oedd bedydd, gan Ioan, ond ffordd i greu argraff ar y bobl, a'u parotoi ar gyfer rhyw symudiad enfawr. Mae'n ddiau ei fod yn coleddu gobaith cryf am ddyfodiad buan y Messiah, ac mai o dan y symbyliad hwn y gweithredai. "Edifarhewch," ebe ef, "canys neshaodd teyrnas nefoedd." Cyhoeddai ryw lid dirfawr i ddod, hyny yw, rhyw drychinebau dychrynllyd oeddynt i gymeryd lle; tystiai fod y fwyell eisoes wedi ei gosod wrth wraidd y pren, ac y bwrid ef i'r tân. Desgrifiai y Messiah fel un a gwyntyll yn ei law, yn dewis yr ŷd da, ac

yn llosgi yr us. Edifeirwch, o'r hyn yr oedd bedydd yn arwyddlun, elusen, gwelliant moesau, y rhai oeddynt y moddion a fynai Ioan yn barotoad tuag at y digwyddiadau oeddynt gerllaw. Yr hyn sydd sicr ydyw, y pregethai gyda grym dirfawr yn erbyn yr un gwrthwynebwyr a Iesu, yn erbyn yr offeiriaid cyfoethog, y Phariseaid, y doctoriaid—mewn gair, yn erbyn Iddewaeth swyddogol, ac y cai dderbyniad, fel Iesu gan y dosbarth dirmygedig yn fwy na'r un arall. Cyfrifai yn ddim y teitl o blant Abraham, a dywedai y medrai Duw wneud meibion i Abraham o gerrig y ffordd. Nid ymddengys y meddai, hyd yn oed i'r graddau lleiaf, syniad gorchestol Iesu, sef y syniad o grefydd bur; ond rhodd ddirfawr wasanaeth i'r syniad hwn drwy osod defod bersonol yn lle seremoniau cyfreithiol, i'r rhai yr oedd offeiriaid yn angenrheidiol; megys ag yr oedd Fflangellwyr* y canol-oesoedd yn rag-redegwyr y Diwygiad, drwy gymeryd oddiar yr offeiriaid swyddogol yr hawlfraint i'r sacramentau ac i faddeuant pechodau. Yr oedd cywair cyffredin y pregethau hyn yn llym a chaled. Ymddengys fod yr ymadroddion a ddefnyddiai yn erbyn ei wrthwynebwyr yn ffyrnig dros ben. Ymosodai arnynt yn barhaus gyda'r gerwindeb mwyaf. Nid yw yn debyg fod gwleidyddiaeth yn beth dieithr iddo. Y mae Josephus, yr hwn a ddaeth i gyffyrddiad bron uniongyrchol ag ef drwy ei athraw Banon, yn ddirgelaidd awgrymu y ffaith, ac mae'r trychineb rodd derfyn ar ei fywyd yn rhoddi lle i'r un dybiaith.

Yr oedd ei ddisgyblion yn arwain bywyd caled, yn ymprydio yn fynych ac yn cymeryd arnynt wedd helbulus a thrist. Weithiau cawn gipdrem ar y syniad o raniad cyffredinol cyfoeth; ac y mae'r tlawd eisoes yn ymddangos fel un ag sydd yn meddu'r hawl gyntaf i deyrnas nefoedd. Er mai Judea oedd canolbwynt gweithrediadau Ioan, buan y cyrhaeddodd y son am dano i Galilea ac hyd at Iesu, yr hwn oedd eisoes wedi casglu o'i gylch, drwy ei bregethau gyntaf, nifer fechan o wrandawyr. Gan nad oedd Iesu eto yn meddu ar lawer o awdurdod, ac yn ddiau gan ei bod yn flys ganddo glywed am athraw, dysgeidiaeth yr hwn oedd mor debyg i'w eiddo ef, gadawodd Galilea ac aeth ef a'i gylch bychan i wrando ar Ioan. Mynodd y newydd-ddyfodiaid gael eu bedyddio fel pawb ereill. Derbyniodd Ioan yn llawen y cynulliad bychan hwn o ddisgyblion Galileaidd, ac nid oedd yn chwith ganddo iddynt aros ar wahan i'w eiddo ef. Yr oedd gan y ddau athraw lawer o gyffelyb syniadau; carent y naill y llall, ac yr oedd yn hoff ganddynt ddangos hyny am y goreu. Y mae ieuenctyd yn meddu ar lawer o boethder; ac y mae'n debyg i'r ddau ddyn brwdfrydig hyn, yn llawn o'r un gobeithion a'r un casinebau, i benderfynu taflu eu hunain i'r frwydr dros yr un achos, a chynorthwyo y naill a'r llall yn yr ymgyrch. Daeth y berthynas hapus hon yn fuan yn ddechreu cyfundrefn gyfan gafodd ei dadblygu gan yr efengylwyr, yr hon osodai dystiolaeth Ioan fel sylfaen i genhadaeth Iesu. Gymaint ydoedd y gradd o awdurdod gyrhaeddwyd gan fedydd fel nas tybid ei bod yn bosibl cael yn y byd sicrwydd cryfach. Ond yr oedd y bedyddiwr ymhell o ymneillduo a rhoddi lle i Iesu, yr hwn yn ystod yr holl amser a dreuliodd yn nghymdeithas Ioan, a'i cydnabyddai ef fel ei ragorach, ac ni ddadblygodd ei athrylith ei hun ond yn dra gwylaidd.

Mewn gwirionedd, mae'n debyg nad oedd Iesu, er dyfned ei wreiddiolder, am rai wythnosau neu fisoedd o'r amser hwn, ond efelychydd i Ioan. Yr oedd ei lwybr hyd yn hyn yn aneglur iddo. Codwyd bedydd i

*Y Fflangellwyr (*Flagellants*) oeddynt sect o benboethiaid a sefydlwyd yn yr Eidal yn 126 O.C. Dalient fod hunan-fflangelliad o'r un rinwedd a bedydd a sacrament.—*Cyfieithydd.*

fri gan Ioan; credai Iesu ei bod yn rhaid iddo ef ddilyn ei esiampl; bedyddiai ef a bedyddiai ei ddisgyblion hefyd. Yn ddiamheu, gyda'r seremoniau hyn, rhoddai bregethau tebyg i eiddo Ioan. Daeth glanau'r Iorddonen yn grynhofa bedyddwyr, ymadroddion y rhai oll gawsant fwy neu lai o lwyddiant. Daeth y disgybl yn fuan mor boblogaidd a'i athraw, a mawr alw am ei fedydd. Bu ychydig eiddigedd rhwng disgyblion Ioan wrtho am lwyddiant cynyddol y Galilead ieuanc, bedydd yr hwn, yn ol eu barn hwy, oedd yn fuan i gymeryd lle bedydd Ioan. Ond yr oedd y ddau athraw uwchlaw y cenfigenau bychain hyn. Yr oedd rhagoriaeth Ioan yn gymaint hyd yn hyn fel nas breuddwydiai Iesu am fyned yn ei erbyn. Dymunai yn unig dyfu yn ei gysgod, a chredai fod yn rhaid iddo er enill y dorf, fabwysiadu moddion allanol fel y rhai a ddygasant gymaint llwyddiant i Ioan. Pan ail ddechreuodd bregethu, wedi i Ioan gael ei gymeryd yn garcharor, nid yw y geiriau cyntaf a osodir yn ei enau ond ail-adroddiad o'r brawddegau oeddynt mor gynhefin i'r bedyddiwr. Y mae llawer o ymadroddion eraill perthynol i Ioan i'w cael, air am air, yn mysg ei ddywediadau. Y mae'n debyg i ddysgyblion y ddwy gyfundrefn fyw mewn cyd-ddealltwriaeth am amser hir, ac wedi marwolaeth Ioan, un o'r cyntaf i gael eu hysbysu am yr amgylchiad oedd Iesu, fel hen gydymaith ffyddlawn iddo.

Rhoddwyd terfyn buan ar yrfa broffwydol Ioan. Fel yr hen broffwydi Iddewig, gosodai y dirmyg mwyaf ar y pwerau sefydledig. Yr oedd rhyddid ei ymadroddion parthed y galluoedd gwladol yn gymaint fel yr oedd yn anmhosibl iddo gadw rhag eu digofaint. Yn Judea nid yw yn debyg iddo gael ei aflonyddu gan Pilat, ond yn Perea, y tu hwnt i'r Iorddonen, daeth o fewn terfynau Antipas. Cythryblwyd hwn gan y lefain wleidyddol y cymerai Ioan mor ychydig drafferth i'w chuddio yn ei bregethau. Yr oedd rhywbeth yn ddrwgdybus yn y cynulliadau mawrion a ffurfiwyd o gylch Ioan gan frwdfrydedd crefyddol a gwladgarol. Yr oedd eiddigedd hollol bersonol hefyd yn gymysgedig a'r ystyriaethau gwladwriaethol, a gwnaed marwolaeth beirniad llymdost yn fater o sicrwydd.

Un o gymeriadau mwyaf cryf ei nodwedd yn y teulu alaethus hwn oedd Herodias, wyres Herod Fawr. O dymher afrywiog, ac o duedd dan-llyd ac uchelgeisiol, yr oedd yn cashau Iddewaeth ac yn dirmygu ei chyfreithiau. Yr oedd wedi ei phriodi, yn groes i'w hewyllys, mae'n debyg, a'i hewythr Herod, mab Mariamne, yr hwn a ddi-etifeddasai Herod Fawr, ac felly heb erioed gymeryd safle gyhoeddus. Yr oedd dinodedd ei gwr, o'i gymharu a phersonau eraill o'r teulu yn destyn tristwch parhaus iddi; mynai fod yn benadur costied a gostio. Ac Antipas oedd yr offeryn ddefnyddiwyd ganddi. Yr oedd y gwr egwan hwn wedi ei lwyr swyno gan serch tuag ati, ac addawodd ei phriodi ac ysgaru ei wraig gyntaf, merch Hareth, brenin Petra, a phenaeth un o lwythau cymydogaethol Perea. Daeth hyn i glustiau y dywysoges Arabaidd, a phenderfynodd ffoi. I guddio ei hanturiaeth, cymerodd arni ddymuno myned am daith i Machaerus, i di iogaeth ei thad, a chafodd swyddogion Antipas i'w harwain yno. Makaur neu Machaerus ydoedd amddiffynfa enfawr wedi ei hadeiladu gan Alexander Jannæus, a'i hail-adeiladu gan Herod, mewn mangre unig y tu ddwyrain i'r Môr Marw. Gwlad wyllt, ddieithr ydoedd, llawn traddodiadau rhyfedd, a man a dybid yn ymguddfa cythreuliaid. Yr oedd y ddiffynfa yn gywir ar linell derfyn tiriogaethau Hareth ac Antipas. Yr amser hwn, yr oedd yn meddiant Hareth. Wedi ei rag-hysbysu, parotoasai hwn erbyn ffoedigaeth ei ferch, yr hon a arweiniwyd yn ol o lwyth i lwyth, hyd Petra.

Yna cymerodd le briodas anfoesol Antipas ac Herodias. Yr oedd cyf-

reithiau priodasol yr Iddewon wedi bod bob amser yn faen tramgwydd ac yn achosion cweryl i deulu anghrefyddol yr Herodiaid. Yr oedd aelodau aml y llinach neillduedig hon yn ymbriodi yn mysg eu hunain, ac felly yn tori'r gyfraith Iddewig. Nid oedd Ioan ond adlais o farn y bobl pan yn siarad yn rymus yn erbyn gweithred Antipas. Yr oedd hyn yn fwy na digon i beri i'r teyrn hwn roddi ffordd i'w ddrwg-dybiaeth. Parodd ddal y bedyddiwr a'i garcharu yn amddiffynfa Machaerus, a gymerwyd ganddo, mae'n debyg, wedi ymadawiad merch Hareth. Yn fwy gwan-galon na chreulon, nis mynai Antipas osod Ioan i farwolaeth. Yn ol rhyw si ofnai fradwriaeth yn mysg y bobl. Yn ol hanes arall, yr oedd wedi gwrandaw gyda phleser ar y carcharor, ac yr oedd ei ymadroddion wedi ei daflu i benbleth mawr. Yr hyn sydd sicr yw, i Ioan fod yn hir yn ngharchar, a'i fod oddiyno wedi taenu dylanwad mawr. Ymohebai a'i ddisgyblion, a chawn ef eto yn dal perthynas a Iesu. Nid oedd ei ffydd yn nyfodiad y Messiah ond myned yn gadarnach; dilynai gyda manylder bob symudiad allanol, ac edrychai yn ddyfal am arwyddion fod gobeithion ei fynwes ar fedr dyfod i ben.

GWAHODDIAD.

(*Oddiwrth yr Eglwys Undodaidd at y Cyhoedd*).

Anwyl Frawd neu Chwaer,—

Gwahoddiad i chwi ydyw hwn. Gwahoddwn chwi i ddyfod gyda ni ac i gymeryd rhan yn ein gwasanaeth. Byddwn yn falch o galon i'ch gweled yn ein plith. Feallai eich bod yn aelod o eglwys arall, neu feallai heb fod mewn cysylltiad ag un eglwys. Nad pa un, croesawn chwi nid fel dieithr ond fel câr. Yr ydym oll yn gyffelyb yn blant Duw, wedi eu danfon i'r byd i fyw fel brodyr a chwiorydd yn nheulu mawr dynoliaeth. Er ini fethu cytuno yn ein hopiniynau, gallwn bawb wneuthur cais i ddeall ein gilydd. Dylai plant Duw, nad beth fo'u cred, fod yn alluog i uno a'u gilydd ambell dro, mewn cydnabyddiaeth o'r rhwymyn brawdgarwch hwnw sy'n eangach a dyfnach nag unrhyw wahaniaeth opiniwn.

Crefydd yw'r hyn a rwyma ddyn wrth ei gyd-ddyn ac a'i cysyllta â Duw; cariad at ddyn yw a chariad at Dduw.

Gall dynion gwir grefyddol gytuno i anghytuno mewn opiniwn, ac eto beidio anghofio mai brodyr a chwiorydd ydynt, plant i'r un Tad.

A deimlwch eich bod ar wahan oddiwrthym ni yn eich cred grefyddol? Y mae hyny feallai am nad oes genych olwg glir beth yw ein syniad ni am grefydd. Os oes genym ofal am danoch, y mae'n ddyledswydd arnom i roi help i chwi i'n deall. Rhenir brodyr oddiwrth eu gilydd ambell bryd oherwydd camddeall eu gilydd. Ein dymuniad gwresog ni yw ar i chwi ein deall. Dyma'n safbwynt ni, Unwn a'n gilydd,—i addoli (1) Un Duw, y Tad; (2) Yn ngwasanaeth dyn; (3) Yn yspryd Iesu Grist.

Credwn nad yw Duw dderbyniwr wyneb; nad oes ffafriaid ganddo; ei fod yn caru pawb yn gyffelyb: fod pawb yn gyffelyb werthfawr yn ei olwg; mai ei ewyllys ef yw ar i bawb gael eu cadw rhag pob math o ddrwg, ac na fyddo un dyn yn golledig.

Y mae genym gymaint ffydd yn Nuw, fel y credwn ei fod yn rhy dda i gospi neb am wahaniaeth gonest mewn barn; ac y bydd pawb fo'n gyffelyb onest yn eu hopiniynau ac yn gwneuthur eu goreu i fyw bywyd da, yn gyffelyb yn gymeradwy ganddo ef.

Credwn mai'r ffordd oreu i'n cymhwyso ar gyfer nefoedd hwnt i'r bedd, yw ceisio goreu fedrwn i wneuthur nefoedd ar y ddaear; i wneuthur *y byd hwn* yn well byd i fyw ynddo i bob dyn; i ddysgu sut i wneuthur pawb yn fwy diogel mewn bywyd yn awr; i ddiogelu pawb rhag tlodi corff neu feddwl neu enaid—yma—lle'r ydym yn awr. Dyna feddyliai Iesu pan yn pregethu yn nghylch gwneuthur Teyrnas Nefoedd ar y ddaear.

Dadleuwn am fywyd tebyg i eiddo y Crist. Pob pechod a gyflawna dyn, rhaid iddo ddioddef o'i blegid; mae yn cau nefoedd a'r bywyd perffaith oddiwrtho, a mwy neu lai oddiwrth eraill hefyd. Pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe. Fe ddioddefa pawb oherwydd drwg pawb arall, gan fod ei ddrwg yn graig rhwystr ar ffordd pawb, yr ydym mor hollol yn aelodau i'n gilydd.

I achub dynion rhag pechu yn erbyn eu gilydd, rhaid ini apelio at bob dyn i garu ei gymydog fel efe ei hun.

Cariad brawdol yw'r feddyginiaeth rhag gwaeau dynol; yr hwn nid yw yn caru ei frawd nid yw yn caru Duw.

Gofyn Duw gan bob dyn i geisio'r Gwir, i feddwl y gwir drosto ei hun, ac i fod yn ffyddlawn i'r Goleuni fel y mae efe yn ei weled.

Yn hyn oll nid ydym ond megys plant yn yr ysgol. Iesu o Nazareth yw ein Hathraw a'n Harweinydd. Yn ei efengyl ef—ystyr efengyl yw Newydd Da—y cawn y Goleuni cliriaf, y Gwirionedd puraf, y Ffordd amlycaf. Medd Iesu, "A phaham nad ydych, ie, o honoch eich hunain yn barnu yr hyn sydd gyfiawn?"

Ein ffydd yn Nuw, ein ffydd mewn dyn, yn y Frawdoliaeth gyffredinol a ddysgasom gan Iesu Grist. Ein ffydd yn Nheyrnas Nefoedd ar y ddaear ac yn niogelwch pawb yn y pen draw, un ai yn y byd hwn ynte yn y byd nesaf, a roddwyd ini hefyd gan yr athraw bendigedig.

Diolch i Dduw am ei gariad anherfynol, nas dichon dim ei ddinystrio. Diolchwn i Dduw am Iesu Grist, am ei fywyd hunanymwadol, am ei addysgiadau gwerthfawr, ei esiampl godidog, ei farwolaeth ardderchog er mwyn pawb dynolryw.

A wnewch chwi uno â ni yn ein diolchgarwch hwn? Deuwch! ac ymlawenhewch gyda ni yn y gobaith gwynfydedig sy genym am ddyfodol dyn, yn y Newyddion o Lawenydd am Frawdgarwch a Chariad i'w sylweddoli gan bawb.

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

AELODAU YR EGLWYS
UNDODAIDD.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1908.

Cymerodd y ddeuddegfed Arholiad le nos Lun, y 13eg o Ebrill. Cafodd pedair-ar-ddeg o ysgolion eu cynrychioli yn yr Arholiad—deuddeg o sir Aberteifi a dwy o sir Forganwg. Cyfanrif y plant o'r gwahanol ysgolion oedd 305. Nifer dda, a mwy na'r blynyddau diweddaf.

Blin iawn oedd gorfod rhoi y safonau uchaf i fynu, ond gobeithio y cawn ffyddlondeb gyda'r Safonau I. a'r II. Mae y gwersi ar gyfer y Safonau yma yn cynwys llawer o wybodaeth. Mae rhoddi ychydig wybodaeth mewn rhyw

gyfeiriad wedi arwain llaweroedd i sychedu am fwy o wybodaeth yn y cyfeiriad hwnw. A bydd y wybodaeth sydd yn y llyfryn bychan sydd wedi ei gyhoeddi at wasanaeth yr Ysgol Sul, i bwy bynag a'i ceisia, yn sicr o arwain i'r un peth.

L. WILLIAMS,

Ysgrifenydd Adran yr Ysgol Sul.

ALLTYPLACA. ARHOLWR—MR. J. APWILYM DAVIES.

Cyfanrif—13.

Safon I.—Dosparth I.—Sarah Hannah Jones, Gwenllian Thomas, Hannah Mary Davies, Lizzie Meredith, David Arthur Morgan, Johnnie Jones, Dosparth II.—Martha Anne Thomas, William John Evans, Tom Jones. Benjamin James Williams, Elias Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Gwenllian Thomas, Sarah Hannah Jones.

BRONDEIFI, LLANBEDR.

ARHOLWR—MR. DAVID WILLIAMS, Glynhir, Llanbedr.

Cyfanrif—24.

Safon I.—Dosparth I.—D. Christmas Evans, D. Joshua Davies, David Tom Williams, J. William James, Hilda Davies, Hannah Jane Lloyd, Annie Davies, Mary Anne Parry. Dosparth II.—Evan David Parry, Johnny Davies, Idris Evans, Nellie Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Ernest Evans, T. J. Egbert Davies, Blethyn Jones, Henry Williams, Stephen Parry, Llewellyn Davies, Rachel Anne Davies, Mary Blodwen Davies. Dosparth II.—Anne Ellen Jones, Ethel Irine Jane Davies, Sally Davies, Willie Jones.

CRIBYN. ARHOLWR—L. WILLIAMS.

Cyfanrif—61.

Safon I.—Dosparth I.—James Evans, Evan Williams, Samuel Evans, David Evans, John Evans, Bank ; David John Jones, David Jones, Evan Davies, Frondeg ; Benjamin Davies, Tom Davies, Evan Jones, Jenkyn John Jones, Evan Davies, Three Horse Shoe ; Tom Jones, Evan Howell Jones, Stephen Hughes, Tom Alban Williams, Daniel Davies, John Evans, Old Shop ; Esther Evans, Margaret Evans, Gwinifred Blodwen Evans, Rachel Mary Evans, Rachel Jones, Margaret Herbert, Kate Evans, Margaret Jones, Sarah Jones, Anne Jones, Jane Evans, Elizabeth Mary Jones, Margretta Jones, Rachel Mary Harries, Ellen Mary Jones, Jane Hughes, Mary Hughes, Elizabeth Williams, Nancy Williams, Hannah Mary Jenkins, Jane Jenkins, Mary Jenkins.

Safon II.—Dosparth I.—Evan Davies, Benjamin Davies, Evan Jones, Jenkyn John Jones, Three Horse Shoe ; Tom Jones, Stephen Hughes, David Evans, John Evans, Elizabeth Mary Jones, Ellen Mary Jones, Jane Hughes, Elizabeth Williams, Rachel Jones, Margaret Herbert, Kate Evans, Margaret Jones, Jane Jenkins, Mary Jenkins, Margaret Evans.

CAERONEN.

ARHOLWR—MR. WATKIN SAMUEL JONES, B.A., B.Sc., Rhydychain.

Cyfanrif—12.

Safon I.—Dosparth I.—John Garfield Evans, Evan John Jones, Watkin Davies, Sarah Helen Davies. Sarah Ellen Jones. Dosparth II.—Nancy Davies.

Safon II.—Dosparth I.—John Garfield Evans, Evan John Jones, John David Jones, Hannah Mary Jones. Dosbarth II.—Annie Davies, Jane Evans.

CAPELYGROES. ARHOLWR—PARCH. J. DAVIES.

Cyfanrif—30.

Safon I.—Dosparth I.—John Jones, James Davies, Samuel Davies, David James Davies, John Morgan, Evan Morgan, Daniel Jones, Benjamin Evans, Gwilym Jones, Nell Jones, Sarah Jones, Sophia Jones, Lizzie Evans, Judith Mary Davies, Rachel Ann Davies, David Albert Jenkins.

Safon II.—Dosparth I.—Benjamin Evans, David John Davies, James Davies, Samuel Davies, Evan James Jones, Evan Morgan, John Morgan, Mary Hughes, Elizabeth Hughes, Hannah Jones, Margaret Ellen Evans, Mary Jane Jenkins, Margaret Jones, Judith Mary Davies.

CAPELYBRYN.

ARHOLWR—MR. D. MARTIN JONES, C.C., Gwion Castle, Llandyssul.

Cyfanrif—25.

Safon I.—Dosparth I.—Thomas Thomas, Evan T. Jones, John Davies, Ddolgoch ; John Davies, Clyncoch ; Evan Davies, Ellis Thomas, William Jones, David Davies, Tom Davies, Eliza Ann Evans, Lizzie Ellen Evans, Sarah Jenkins, Sarah Jane Price, Sarah Lydia Ann Jones, Eliza Mary Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Evan Davies, Ivor Goronwy Williams, Thomas Davies, Daniel Davies, David John Jenkins, John Lewis, Evan Thomas, Rachel Mary Evans, Hannah Evans, Mary Elsie Evans.

CAPELYCWM. ARHOLWR—MR. D. R. DAVIES, C.M., Cwrtnewydd

Cyfanrif—6.

Safon I.—Dosparth I.—Lizzie Maud Davies. Dosparth II.—Rees Lloyd, David Price Evans, William Turner.

Safon II.—Dosparth I.—Maggie Davies, Alice Thomas.

CAPELYFADFA. ARHOLWR—MR. DAVID DAVIES, Pantdefaid.

Cyfanrif—37.

Safon I.—Dosparth I.—Enoch Evans, John Jones, David Jones, David Davies, Thomas John Davies, Daffo Davies, James Davies, James Brown, Daniel D. Lewis, David James Griffiths, John Howell Thomas, Tom William

Jones, John Thomas, Mary Evans, Anne Jones, Rachel Jones, Annie Ellen Thomas, Nancy James Evans, Anne Evans, Eliza Jane Davies, Sarah James Davies, Annie Lewis, May Lewis, Hannah Margretta Jones, Winnie Brown.

Safon II.—Dosparth I.—David Thomas, Evan Jones, David Jones, David Jacob Lewis, John James Evans, David Herbert, Nancy James Evans, Margaret Ellen Thomas, Eliza Jones, Jeannie Jones, Frances Mary Davies, Minnie Thomas.

GRAIG, LLANDYSSUL. ARHOLWR—PARCH. E. O. JENKINS.

Cyfanrif—1.

Safon II.—Dosparth I.—Lizzie Jane Roberts.

LLWYNRHYDOWEN. ARHOLWR—PARCH. T. A. THOMAS.

Cyfanrif—13.

Safon I.—Dosparth I.—Rachel Ann Jones, Mary Geinor Jones, Tom Davies, Daff Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Margaret Lloyd, Hannah Davies, Mary Ann Davies, Mary Hannah Davies, Mary Anne Lloyd, Anne Davies, Mary Williams, Hannah James, Dan Davies.

PANTDEFAID. ARHOLWR—MR. J. R. THOMAS, C.M., PONTSHAEN.

Cyfanrif—5.

Safon I.—Dosparth I.—Elinor Davies, Gwen Jones, Annie Jane Thomas, Eliza Jones.

Safon II.—Dosparth I.—William John James.

HEN DY CWRDD, ABERDAR. ARHOLWR—PARCH. J. HATHREN DAVIES.

Cyfanrif—15.

Safon I.—Dosparth I.—Edith Gwen Price, Elizabeth Ann Morgan, Mary Maria Davies, Annie May Davies, May Llewellyn, Catherine Barrows. Dosparth II.—Sarah Ann Davies, Maggie Jane Davies, Olwen Morfudd Morgan, Idris Davies.

Safon II.—Dosparth I.—David William Davies, Thomas John Lewis, John Euryn Davies, John Thomas, David Cledwyn Davies.

RHYDYGWIN. ARHOLWR—PARCH. D. EVANS.

Cyfanrif—24.

Safon I.—Dosparth I.—Daniel Lloyd, Evan Jones, David Daniel Jones, Watkin Griffiths, Johnny Jones, Dinah Jenkins, Hannah Mary Jones, Jennie Jenkins, Elizabeth Evans-Jones, Rachel Ann Evans, Gwladys Davies.

Safon II.—Dosparth I.—John Jenkins, John Jones, David Jones, Joseph Jones, Lloyd Owen Davies, Daniel Saunders Davies, Henry Owen, Sally Davies, Elizabeth Saunders Davies, Jane Owen, Lizzie Ann Davies, Ann Saunders Davies, Mary Anne Jones.

TREBANOS. ARHOLWR—PARCH. SIMON JONES, B.A.

Cyfanrif—39.

Safon I.—Dosparth I.—Ceinwen Davies, Elizabeth Mainwaring, Griffith Thomas. Dosparth II.—Margaret Anne Bowen, Blodwen Davies, Maggie Davies, Mary Elizabeth Haulier, Olwen Morgan, Alice May Roberts, Johnny Bowen, Tommy Bowen, Daniel Davies, David S. Joseph, Lewis John Hodge, John Morgan.

Safon II.—Dosparth I.—Lizzie Hannah Evans, May Watkins, Oscar Bowen, Isaac Emrys Hopkin, Henry John Williams, Marles Williams, Johnny Watkins. Dosparth II.—Hannah Mary Bevan, Mary Elizabeth Davies, Rachel Davies, Esther Davies, Hannah Mary Jones, Mary Morgan, Rachel Ann Morgan, Bessie Rocke, Sarah Saunders, Rachel Ann Thomas, Ezaiah Bevan, David Jenkins, Idris Joseph, Gwynrudd Joseph, Marles Morgan, David Henery Morgan, Tommy Saunders.

CYFARFOD CHWARTEROL Y GYMDEITHAS GYMREIG.

Cynhaliwyd yr uchod yn Allty-placa ar ddyddiau Mercher a Iau, yr 22ain a'r 23ain o Ebrill. Nos Fercher pregethwyd gan y Parchedigion L. Morgan, Clydach, ac E. O. Jenkins, Llwyn. Boreu Iau, am 10.30, gan y Parchn. M. Evans ac R. J. Jones, A.C., Aberdar. Am 2 yn y prydnawn gan y Parchn. W. Alva Richards a D. G. Rees. Am 5.30 gan y Parchn. T. A. Thomas a J. H. Davies. Arweiniwyd yn y rhanau defosiynol gan y Parchn. Lewis Williams, D. G. Rees, R. C. Jones ac E. Jones o Rydychen. Cafwyd tywydd ffafriol, cynulliadau lluosog, pregethau grymus a chasgliadau boddhaol. Yr oedd yn bresenol, yn ychwanegol at y gweinidogion a enwyd, y Parchn. D. Evans, Cribyn; D. James, Rhydybont; ac E. Phillips, Capel Seion. Derbynied yr eglwys ddiolchgarwch gwresocaf ei hen fugail am ei darpariadau eang ar gyfer croesawu pawb i'r cyfarfodydd, a'r gweinidogion am eu ffyddlondeb yn dyfod iddynt, a'u gwasanaeth gwerthfawr ynddynt. Bu'r cyfarfodydd yn llwyddiant mawr o'r dechreu i'r diwedd.

Y Pwyllgor.

Cynhaliwyd y Pwyllgor boreu Iau, o dan lywyddiaeth Cadben Davies, y Cadeirydd am y flwyddyn. Cadarnhawyd cofnodion y ddau gyfarfod diweddaf. Etholwyd yr Ysgrifenydd yn aelod o'r *Advisory Committee* yn lle y diweddar Barch. W. James. Etholwyd y Parch. J. P. Kane, Dowlais, i fod yn gynrychiolydd y Gymdeithas yn nghyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor gynhelir yn Llundain wythnos y Sulgwyn. Penderfynwyd casglu yn yr eglwysi at y Gymdeithas y Sul cyntaf yn Mehefin, neu y

Sul cyfleus nesaf i hyny. Gadawyd holl drefniadau y Cyfarfodydd Blynyddol yn ngofal eglwys y Graig, Llandyssul, lle y maent i'w cynal. Dewiswyd swyddogion y Gymdeithas er ffurfio is-bwyllgor, gyda'r amcan o wneud trefniadau os yn bosibl i brynu gweddill copiau "Perlau Moliant," ac i gyflwyno adroddiad i'r Cyfarfod Blynyddol. Buwyd yn ystyried y priodoldeb o uno y ddwy Gymdeithas Undodaidd yn Nghymru. Siaradwyd yn wresog gan amryw leygwyr a gweinidogion, a gohiriwyd ystyriaeth bellach i'r Cyfarfod Blynyddol. Darllenwyd llythyr oddiwrth Ysgrifenydd De-Ddwyrain Cymru yn apelio am gymhorth arianol er cario yn mlaen "Genhadaeth y Fen," ymwêl a Deheudir Cymru yn ystod yr haf. Pasiwyd rhoddi £10, ac fod yr Ysgrifenydd i ofyn am danysgrifiadau neillduol at y cyfryw. Pasiwyd yn unfrydol benderfyniad yn cefnogi "Mesur y Trwyddedau" sydd yn awr o flaen y Senedd. Pasiwyd hefyd ein bod yn dadgan na fydd yr un Mesur Addysg yn derbyniol genym, os na fydd yn gadael allan addysg grefyddol yn gyfangwbl. Pasiwyd danfon llythyr o longyfarchiad i'r Anrhydeddus D. Lloyd George, A.S., ar ei ddyrchafiad i fod yn Ganghellydd y Trysorlys, gan gofio fod ei dad wedi bod yn brifathraw ysgol Hope Street yn adeg gweinidogaeth Dr. James Martineau.

T. A. THOMAS, Ysg.

CONGL YR AWEN.

YMLADD A BOD YN DDYN.

Lle rhua'r cynhyrfus fôr
Dan wg cymylau'r nef;
Lle lladd y don ei hun
Ar ddanne 'r uchelgraig gref;
Lle mae'r ystorom ddu'n
Bygynad o lan i lan;
Lle disgyn y dreigiau mellt
Yn groch ar y bryniau ban;
Lle chwythir yr hwyl-long falch
Oedd gynnau fel alarch wen
I safn y greulon graig—
A'i chwalu bob yn bren.
O'm dirgel ystafell gul
O ganol fy mhrudd-der blin,
Mi garwn fynd i anterth y storm
I ymladd a bod yn ddyn.

Syrthiodd fy llygad ar ferch,
Oedd hi yn deg ei phryd?
'Does fardd a fedrai iawn ganu ei chlod
Er cynyg o feirdd y byd.
A gerais i'r lanbryd ferch?
Ei charu? Do, cerais hi
A chariad o ddyfnder y moroedd maith
A phurdeb perlau y dyfnder llaith
Sy'n nghudd dan ewyn y lli'.
Garodd hi di? Briodaist ti hi
Yr angyleiddiaf fun?
Rhy ddisglaer yr em a gerais i
I'w dwyn, y deg ei llun—
O am fôr o angof, a 'stormydd maith
I ymladd a bod yn ddyn!

MIN Y RHOS.

BARN CYMRO AM GYMRU.

Gwlad y Delyn yw Cymru,
'Nol traddodiad a chân;
Pa le mae'r Delyn heddyw?—
Bron a diflanu'n lân.

Gwlad y Gymraeg yw Cymru
Er ys canrifoedd maith ;
Beth wneir yn Nghymru heddyw ?
Gwadu ein hanwyl iaith.

Pobl grefyddol yw'r Cymry ;
Rhodiant y llwybr cul,
Weithiau ar hyd yr wythnos,
Ond beunydd ar y Sul.

Gwae offeiriad ac esgob
O fewn ei therfynau hi,—
Cymru, gwlad Methodistiaeth,
Gwlad y pregethwr yw hi.

Gwr yn ei het o sidan
A'i 'sgrepan yn ei law ;
Gwelaf wrth fwg ei bibell
Y 'gethwr yn dod o draw.

Gwlad y colegau yw Cymru,
Gogledd, a Chanol a De ;
Meithrinfa ysgolheigion
Mewn iaith a gwyddor, ynte ?

Ac ieithoedd meirw er's oesoedd,
A Gwyddor fu 'rioed yn fyw—
Meiniaith y Sais a Snobyddol
Yn ei cholegau clyw.

Wele globyn o hwsmon
Yn diosg ei arw gob—
Yn chwysu mêr ei esgyrn
Er gwneuthur ei fab yn snob.

Gwlad y Rhyddfrydwr yw Cymru,
Gelwir hi'n 'Gryd y Rhydd' :
Ond beth am Dduwinyddion
Ceidwadol Cymru Sydd ?

Gwae'r 'Dduwinyddiaeth Newydd'
Gwae archwilwyr y gwir,
Diffyg tanwydd a'n hachub
Yn unig, o fewn ein tir.

Tolciog, yw gwlad y bryniau,
Rhychiog gan gwm a glyn ;
Hyll yn ngoleuni gwirionedd
Salw i'r hwn a fyn

Droi ei feddwl yn ddifrif
A gweled ei brychau hi—
Ond, oni welwn ein brychau
Byth nis glanheir ni.

Iachus f'ai cofio weithiau
Yn nghanol ein twrf i gyd
Beth ydyw Gwalia wenaf
Brycheuyn ar wyneb byd.

Deffro, Gymru fy nhadau,
Garw a gwyllt dy dir,
O freuddwydion oesau—
Agor dy lygaid i'r gwir.

Edrych ymhell o'th amgylch,
Fwynaf Walia Wen—
Rhag ofn mai cyfiawn cenhedlaedd
A chwarddant ar dy ben !

CYMRO.

PRIODAS.

EBRILL 25, yn nghapel y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig, Shirland Road, Llundain, Mr. Timothy Jones, Fountain Hill, Cellan, un o fechgyn ieuainc ffyddlon eglwys fechan Caeronen, â Miss Jenetta Price, 35, Okehampton Road, Willesden, Llundain. Y bendithion goreu ddilyno y briodas.

MARWGOFION.

EBRILL 14, yn 25 mlwydd oed, Johnny, mab hynaf Mr. John Evans, Crugyfeilog, Llanerchaeron. Trwy ddamwain y cymerwyd bywyd yr ymadawedig, ac y mae ei ymadawiad mewn canlyniad yn un trist iawn. Yr oedd Mr. John Evans a'i ddau fab wedi bod yn gweithio ar y maes gerllaw y ty. Cychwynodd Johnny adref o flaen ei dad a'i frawd gan gymeryd cert a cheffyl ganddo. Pan y dilynodd ei dad a'i frawd ef yn mhen ychydig amser cawsant eu dychrynu ei weled yn gorwedd yn farw ar ochr y ffordd. Tebyg yw i'r ceffyl gael ei darfu gan rywbeth a rhedeg, ac iddo yntau rywfodd syrthio o dan olwyn y cert. Yr oedd yn fachgen ieuanc llafurus a gofalus iawn gyda'i waith, ac o help mawr i'w dad ar y fferm. Yr oedd hefyd yn gymeriad a berchid yn fawr gan bawb yn y gymydogaeth. Mae ei dad yn nai i'r Parch. J. Davies, Alltyplacca. Cludwyd ei weddillion marwol y Sadwrn canlynol i fynwent Eglwys Ciliau. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin, a phregethwyd yn yr eglwys gan Ficer Llanerchaeron. Gadawodd dad, pedwar brawd ac un chwaer i alaru ar ei ol. Cydymdeimlwn yn fawr a hwy yn eu profedigaeth.

EBRILL 18, yn 83 oed, Jenkin Thomas, Gafryw, ger Mydroilyn. Cofir ef gan ei hen gyfoedion fel Jenkin, Gwaralltferdre. Bu am flynyddau yn byw yn Bwlchybryn, yn agos i Bwlchyfadfa. Wedi colli ei gydymaith, a henaint ei oddiweddyd, aeth i fyw am y gweddill o'i oes at ei fab i'r lle uchod. Daeth y diwedd yn annisgwyliadwy. Dros ychydig amser y bu yn glaf. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r rhai hynaf a fynychai gapel y Bwlch. Bu yn ffyddlawn drwy ei oes hyd yr amser y gadawodd yr ardal. Ymwelai a ni wedyn yn achlysurol, ac yr oedd ei bresenoldeb bob amser yn cael ei nodweddu gan wir sirioldeb. Nid oedd Jenkin yn gerddor nac yn feddyliwr mawr, ond yr oed yn amlwg ei fod yn gwir fwynhau yr oll o'r addoliad o'r dechreu i'r diwedd. Mynych y gwelid arwyddion fod yr afon yn gorlifo ei glanau. Claddwyd ei weddillion y dydd Mercher canlynol yn mynwent Capelyfadfa. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog a chan y Parch. J. Howells, Llwyncelyn wrth y drws cyn cychwyn. Gadawodd i alaru ar ei ol ddau fab, tair chwaer, ac un brawd. —T.G.T.

MAI 2, wedi hir gystudd, yn 67 oed, Elizabeth Davies, gweddw y diweddar Daniel Davies, Lowtre, Llanwnen. Claddwyd yn ymyl ei hanwyl briod yn mynwent Capelybryn ; a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog gyda chynorthwy caredig y Parch. J. Morris, M.A., Ficer Llanwenog, a thraddodwyd ei phregeth angladdol yn Alltyplaca, Sul y 17eg cyfisol. Gadawodd Mrs. Davies fab a merch a dwy wyres amddifaid i alaru'n ddwys ar ei hol. Yr oedd wedi treulio bywyd teilwng yn mhob ystyr. Gwraig ddarbodus, mam dyner a gofalus, cymydoges dangnefeddus a chymwynasgar ac aelod ffyddlon o eglwys Iesu Grist yn Alltyplaca. Arglwydd y cynhauaf a anfono eto lawer o gyffelyb yspryd i lanw ei lle.

MAI 5, yn 6 mis oed, David Hughes, baban bychan Mr. a Mrs. James, Maesnoni, Llanllwni, gynt o Coedfoel, Llandyssul. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn mynwent Aberduar, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. Arthur Thomas, John Davies, E. Phillips (B.), ac E. O. Jenkins. Bydded i'r rhieni ieuanc, er eu cysur, gofio geiriau Iesu, 'Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

MANION AC HANESION.

CASGLIAD NEILLDUOL AT DREULIAU Y VAN.—Derbyniwyd y tanysgrifiadau canlynol:—Captain W. Davies, Rhydowenfach, £1; Mr. D. J. Jones, Aberdare, £1 1s.; Mr. Tyssul Davies, do., £1; Parch. R. J. Jones, M.A., £1; Parch. John Davies, Alltyplacca, £1; Parch. R. C. Jones, Lampeter, 10s.; Parch. Arthur Thomas, 10s.; Mr. Saunders Davies, Felinfach, 10s.; Mr. Edward Thomas, Blaenmene, 5s.; Miss Jenkins, Trecefel, 5s.; Dr. Tom Evans, Caerdydd, 5s. Yr ydym rhyw £3 yn fyr o'r addewid wnaeth y Gymdeithas.—*Arthur Thomas, Ysg.*

ADRAN YR YSGOL SUL.—Dymunir cydnabod gyda diolchgarwch y casgliadau canlynol:—Bwlchyfadfa, 6s. 1c.; Caeronen, 5s. 1c.: Capelycwm, 5s.; Capelybryn, 8s.; Alltyplaca, 5s.; Trebanos, £1 4s. 7c.; Capelygroes, 8s. 4c; Llwynrhydowen, 5s. 6c.—L.W.

ABERDAR....Nos Fercher a dydd Iau, Mai 13 a 14, cawd amser hapus iawn yn Festri yr Hen Dy Cwrdd, yn gwrandaw ar y plant bach yn perfformio'r *operetta* boblogaidd, *The White Garland* (*Curwen*). Yr oedd y Festri yn orlawn bob tro, ac fe aeth y plant bach drwy eu gwaith yn ardderchog dda. Y mae clod mawr yn ddyledus i Mr. John Thomas, blaenor y gân, a'i gynorthwywyr am y gofal a'r drafferth gymerasant i ddwyn yr oll o'r plant i'r fath bitch o berffeithrwydd.

CEFNCOED....Llun y 18fed, cynaliwyd y Gymanfa Ganu yma a throdd allan yn llwyddiant perffaith. Gobeithiwn gael manylion pellach yn rhifyn Gorphenaf.

CAPELYCWM....Mai y 18fed, cynaliwyd cyfarfod blynyddol Ysgolion Sul yn Nghapelycwm. Daeth yr ysgolion canlynol yn nghyd, Ciliau, Rhydygwin, Cribyn, Capelybryn a Chapelycwm. Holwyd Capelycwm, Ciliau a Rhydygwin gan y Parch. John Davies, Cribyn gan y Parch. L. Williams, a Chapelybryn gan y Parch. E. O. Jenkins. Aeth y gwahanol ysgolion drwy eu gwaith yn ganmoladwy iawn. Profent eu bod wedi talu sylw dyladwy i'r gwahanol faterion yr ymdrinient a hwynt. Yr oedd eglwys ieuanc y Cwm wedi gwneud darpariadau da i ddderbyn y gymanfa yn roesawus. Cafwyd hin ddymunol, a throdd y cyfan allan yn llwyddianus iawn. Yr unig beth annymunol oedd absenoldeb y Parch. D. Evans oherwydd ei afiechyd. Boed iddo adferiad buan.

Nos Wener, Ebrill 3ydd, cynaliwyd cyfarfod cystadleuol hynod lwyddianus yma. Dechreuwyd y cyfarfod dan lywyddiaeth y Parch. John Davies, a gorphenwyd gan Cadben Davies, Rhydowenfach. Arweiniwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, a chatwyd beirniaid cerddorol cymhwys yn y Parch. T. Arthur Thomas. Cyfeiliwyd gan Miss Evans, Tynyfron, a Miss Evans Alltyrodyn Arms. Bu oddeutu tri ugain o gystadleuwyr ar y llwyfan. Dyma'r Eisteddfod gyntaf yn y capel newydd, ac y mae ei llwyddiant yn hawlio Eisteddfod flynyddol.

RHYDYGWIN. ... Cynhaliwyd ein gwyl de flynyddol prydnawn dydd Gwener y Groglith. Darparwyd y wledd gan Miss Jones, Penbanc, Mrs. Jenkins, Henardd, a Mrs. Williams, Bedlwyn. Yn yr hwyr cawsom Ddarlith gan y Parch T. Arthur Thomas, Llandyssul, ar "Tro i'r Amerig." Bu Mr. Thomas ar ymweliad a'r Amerig yr haf diweddaf. Yr oedd y ddarlith yn cael ei hegluro gan yr Hud-Lusern. Cafwyd nifer luosog o ddarluniau ar y *canvas*, ac yn eu plith cafwyd rai o'n capelau ni yn y wlad, a llawer o'n prif ddynion godwyd i fynu yno, megis Dr. Channing, Robert Collyer, Theodore Parker, Thoreau, Emerson ac eraill. Yn ychwanegol at hyny cafwyd darluniau o rai fu yn adnabyddus iawn i ni ac o wasanaeth mawr i'n henwad

yn Nghymru, sef y Parchn. Gwilym Marles ; Thomas Thomas, Pantydefaid ; William James, Llandyssul ; a William Rees, Rhydygwin. Yr oedd y ddarlith yn ddyddorol iawn, yn enwedig i Undodiaid, a sicr yw y cawsai Mr. Thomas ei alw i lawer o'n heglwysi i draddodi ei ddarlith pe baent yn gwybod pa mor ddyddorol ydyw. Cynorthwywyd Mr. Thomas wrth y Llusern gan Mr. David Davies, Gwarcefel Arms, Pantydefaid.

Y "VAN"...Deallwn mai yn y Ceinewydd y cymerodd yr arholiad le, ac mai ffarmwr o'r gymydogaeth oedd yr arholwr. "Ac yn y fan y canodd y ceiliog." "Yn awr, 'y mhlant i, pwy biodd y Van?" Cafwyd atebion amryw ; credai y rhan amlaf mai Petr a'i piai. "Sylwch blant yn fanwl, y mae mor amlwg a'r dydd, 'Ac yn y fan y canodd y ceiliog.'" Dim ateb. "Be ydych chi mor ddwl? Yn y 'Van.' Wrth gwrs y Sipsiwn a'i piai"!!

CARIAD A FFYDDLONDEB. ... Y mae yna ddyddordeb a swyn neilldiol i ni yn mhob llyfr gyfansoddir gan Gymro yn yr iaith Saesneg. Ac nid ychydig ydyw nifer y Cymry sydd wedi llwyddo yn y cyfeiriad hwnw. Yn ychwanegol at y ffaith hon y mae y gyfrol hon sydd o'n blaen wedi ei chyfansoddi gan un sydd megis yn gnawd o'n cnawd ninau, y Parch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago. Cynwysa'r gyfrol hon dair ar hugain o bregethau draddodwyd i fechgyn a merched ei eglwys yn ystod pum' mlynedd ar hugain ei weinidogaeth. Traddodwyd y bregeth gyntaf yn 1886 a'r olaf yn 1907. Y maent oll yn nghyd a'r testunau yn nodweddiadol o'r pregethwr. Pregethwr sydd yn meddu ysbryd a theithi y Cymro ydyw Mr. Jones, ac un, yn ychwanegol, sydd yn edrych ar ochr oleu bywyd ydyw. Mae ei wyneb yn barhaus tuag at godiad haul. Er mai i bobl ieuainc y mae Mr. Jones yn pregethu, y mae yma wirioneddau a gwersi sydd yn fuddiol i bob oedran, a byddai yn iechyd i ben a chalon pawb i ddyfod ar eu traws. Dymunwn gyflwyno y gyfrol olaf hon o eiddo Mr. Jones yn wresog i sylw pawb garent wybod rhywbeth am y Cymro twymgalon hwn o Chicago.*

PETHAU NEWYDD....Yn y Cwrdd Chwarter yn Alltyplaca, Pasg 1908, y clywais i gyntaf weinidog yn codi ei destun y tu allan i'r Beibl. Cafwyd y testun yn ngweithiau'r enwog Emerson ; ac yn y Nottais, dydd Sul, Ebrill 26, 1908, y clywais gyntaf y pregethwr yn cymeryd ei ddarllen-iad allan o Ysgrythyrau Bwda. Deallwn fod disgyblion Bwda ar fedr danfon cenadwr i'n gwlad ni cyn diwedd y flwyddyn. Beth feddylia'r darllenydd.

DUW YN ELYN DYN....Dyna bwnc sydd yn cael sylw ac yn achosi cryn gyffro ar faes y *Goleuad* y dyddiau hyn. Y mae'n sicr o fod yn elyn anghymodlawn iawn os yw, fel y dysg y gredo, yn gyru mwyafrif ei blant i uffern o dân tragwyddol. Mor wahanol yw'r Duw hwnw sydd yn cael ei alw yn y Testament Newydd yn Dduw'r cariad!

Amddifad iawn, dybiwn, o'r ysbryd parchedigol oedd yr hen frawd cellweirus a ddywedodd : Fod yr *Universalist*† yn credu fod Duw yn rhy dda i'w ddamnio ef, tra mae'r Undodydd yn credu fod dyn yn rhy dda i gael ei ddamnio.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.... Bwriedir cynal yr uchod yn y Graig, Llandyssul, Mawrth a Mercher, Gorphenaf 7 ac 8. Y pregethwr ydyw y Parch. D. G. Rees, Penybont. Bydd manylion pellach yn YMOFYNYDD Gorphenaf.

---

* *Love and Loyalty*. Jenkin Lloyd Jones. The University of Chicago Press. 6s.

† Un yn credu yn adferiad cyffredinol pob dyn.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ. CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & Co.,

THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES)
FREE ON REQUEST. . . . .

Renovations & Removals. Estimates Free.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.